# Trefniadau Indemniad yn Ystod Pandemig Coronafeirws

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau
Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg
Shared Services Partnership
Legal and Risk Services

GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau
Gwasanaethau Cronfa Risg Cymru
Shared Services Partnership
Welsh Risk Pool Services

Crynodeb o drefniadau indemniad yn ymwneud â rheoli'r pandemig. Mae bellach wedi'i ddiweddaru i gynnwys y trefniadau ar gyfer brechiadau.

*Rhagfyr 2021*

GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau
Shared Services Partnership



# Trefniadau Indemniad yn Ystod Pandemig Coronafeirws

## Cyflwyniad

Mae’r holl staff yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio’n anhygoel o galed i gynyddu capasiti ac i ddarparu gofal i gleifion o dan yr amgylchiadau heriol iawn hyn. Mae’n bwysig nad yw pryderon indemniad yn dod yn rhwystr i drefniadau gofal effeithiol a datblygu modelau cyflawni amgen i gefnogi anghenion cleifion.

Mae cynlluniau presennol a weithredir yng Nghymru, gan gynnwys y Cynllun ar gyfer Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol, Indemniad y GIG a threfniadau Cronfa Risg Cymru yn ymestyn i ddarparu gofal i gleifion sy’n cael diagnosis o Covid-19, neu yr amheuir bod ganddynt Covid-19.

O dan Adran 11 o Ddeddf y Coronafeirws 2020, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi indemniad ar gyfer rhwymedigaethau esgeulustod clinigol sy’n gysylltiedig â COVID-19 nad ydynt eisoes yn dod o dan drefniadau indemniad amgen, megis yr indemniad a roddir gan y Cynllun ar gyfer Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol ac Indemniad y GIG, cwmnïau yswiriant neu sefydliadau amddiffyn meddygol.

Mae cyrff iechyd GIG Cymru yn cael eu hatal rhag prynu yswiriant masnachol ym mhob achos ar wahân i rai amgylchiadau eithriadol.

Mae egwyddor cyfraith gyffredin atebolrwydd dirprwyol yn golygu bod corff iechyd y GIG sy’n cyflogi aelodau o staff yn atebol am weithredoedd ac anweithredoedd yr unigolion hynny yn ystod eu Cyflogaeth.

Mae Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC wedi sefydlu tîm o gyfreithwyr profiadol i ddarparu cyngor ar faterion cyfreithiol sy’n codi o’r pandemig Coronafeirws. Cydlynir hyn gan yr Uwch Gyfreithiwr, Sarah Watt, a dylid e-bostio ymholiadau yn y lle cyntaf at Sarah.Watt@Wales.nhs.uk.

Bydd Sarah yn cydlynu’r timau priodol i gynorthwyo gyda’r ymchwiliad a sicrhau bod y mater yn cael ei symud ymlaen yn briodol.

Gellir cysylltu â’r tîm sy’n rheoli’r Cynllun ar gyfer Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol (GMPI) trwy e-bost gmpi@wales.nhs.uk neu drwy ffonio 029 2090 5454 yn ystod oriau busnes arferol, sef 0900 - 1700 o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Gall Tîm Gweithrediadau Cronfa Risg Cymru roi cyngor ar drefniadau indemnio. Mae prif linell ffôn Cronfa Risg Cymru ar gau wrth gwrs, ond fe roddir sylw i negeseuon llais. Dylai unrhyw un sydd ag ymholiad indemniad ei gyfeirio yn y lle cyntaf at y Pennaeth Diogelwch a Dysgu, Jonathan Webb, trwy e-bost Jonathan.Webb@wales.nhs.uk neu drwy ffonio 07850 521999.

## Safleoedd Dros Dro ac Adeiladau Amgen

Pan fydd ysbyty maes, canolfan dderbyn, canolfan brechu torfol neu gyfleuster arall yn cael ei sefydlu gan y GIG, gellir rhoi trefniadau indemniad ar waith. Byddai corff arweiniol (a fyddai fel arfer yn Fwrdd Iechyd sy’n gyfrifol am sefydlu’r safle dros dro) yn dod yn gyfrifol am indemniad staff, gwirfoddolwyr a phartneriaid a adleolir i weithio yn y lleoliad hwnnw.

Mae’n hanfodol bod contractau, memoranda cyd-ddealltwriaeth a chytundebau lefel gwasanaeth yn cael eu paratoi’n briodol i sicrhau bod gofynion perchnogion adeiladau yn cael eu cynnal a bod dyletswyddau’r GIG yn glir. Mae timau Masnachol ac Eiddo Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg yn gallu rhoi cyngor i sefydliadau’r GIG. Felly mae’n bwysig bod y tîm Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg yn cymryd rhan mor gynnar â phosibl yn ystod trafodaethau a threfniadau sefydlu.



## Staff yn Dychwelyd i Ymarfer

Bydd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd wedi ymateb i’r alwad i gynorthwyo’r GIG yn yr amgylchiadau digynsail hyn yn cael eu hindemnio gan sefydliad y GIG sydd ag awdurdod a rheolaeth ar y gweithgareddau y mae’r unigolion yn eu cyflawni.

Mae Deddf Coronafeirws 2020 yn hwyluso dull cyflym i reoleiddwyr proffesiynol gofrestru gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac mae’n bwysig bod gan sefydliadau unigol gofnodion clir o bwy sydd â’r dasg o weithio mewn lleoliadau penodol.







## Gwirfoddolwyr GIG

Cafwyd ymateb cadarnhaol iawn i'r alwad am wirfoddolwyr ychwanegol i gefnogi'r GIG yn ystod y pandemig. Mae'r trefniadau presennol ar gyfer indemniad yn y GIG eisoes yn cwmpasu gwirfoddolwyr.

Mae'r sefydliad sydd ag awdurdod a rheolaeth ar eu gweithgareddau yn cymhwyso indemniad y gwirfoddolwyr newydd hyn. Mae'n hanfodol bod cofnodion clir yn cael eu cadw ynghylch pwy sy'n cael ei benodi i ba dasg. Mae hefyd yn hanfodol bod gwirfoddolwyr yn cael eu briffio'n briodol ac yn cael offer ac arweiniad priodol i gyflawni'r tasgau sy'n ofynnol ganddynt.

Amlinellir y gofynion ar gyfer gwirfoddolwyr sy'n rhan o'r rhaglen frechu ymhellach yn adran Brechiadau Covid-19.

## Staff Sy'n Gweithio y tu Allan i'w Harbenigedd Neu eu Gwasanaeth Arferol

Yn ystod y pandemig, bydd angen i staff presennol y GIG weithio mewn meysydd a lleoliadau nad ydynt yn ddyletswyddau arferol iddynt. Mae Llywodraeth Cymru a GIG Cymru yn hynod falch o ymdrechion staff y GIG.

Darperir indemniad i staff wrth iddynt weithio mewn lleoliadau gwahanol, yn cyflawni gwahanol ddyletswyddau neu, ar gyfer sefydliad GIG gwahanol, gan y corff iechyd sydd ag awdurdod a rheolaeth ar y gweithgareddau a gyflawnir. Nid oes angen bod contract anrhydeddus ar waith i'r indemniad fod yn weithredol. Er enghraifft, byddai meddyg teulu sy'n gweithio mewn ysbyty yn cael ei indemnio gan y Bwrdd Iechyd neu'r Ymddiriedolaeth sy'n gyfrifol am yr ysbyty.

GIG CYMRU NHS WALES

NHS



## Canllawiau Neu Weithdrefnau Amgen




Efallai y bydd angen addasu canllawiau a llwybrau er mwyn delio â materion capasiti a bydd rhaid i staff y GIG wneud penderfyniadau anodd yn ystod y pandemig. Mae sefydliadau yn cyflwyno canllawiau cenedlaethol, canllawiau arbenigol a chanllawiau lleol a gaiff eu diweddaru'n rheolaidd. Er y gallent fod yn wahanol i arferion blaenorol, dylai staff ddilyn y canllawiau diwygiedig a gallant fod yn sicr y cânt eu hindemnio yn y broses.

## Cynllun ar gyfer Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol



Mae'r Cynllun ar gyfer Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol yn rhoi indemniad ar gyfer hawliadau esgeulustod clinigol yn sgil digwyddiadau o 1 Ebrill ymlaen i holl staff ymarfer meddygol cyffredinol sy'n ymgymryd â 'gwasanaethau meddygol sylfaenol' (fel y'i diffinnir yng Nghwestiynau Cyffredin Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg).

Felly, caiff gofal a thriniaeth cleifion sydd â COVID-19 neu sydd â COVID-19 tybiedig eu cofnodi gan yr Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol os caiff gwasanaeth meddygol sylfaenol ei gwblhau.

Yn unol â threfniadau cyfredol y Cynllun ar gyfer Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol:

- Mae angen i feddygon teulu locwm sy'n dymuno cael eu cynnwys ar y Gofrestr Meddygon Locwm i Gymru Gyfan wneud cais i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru os ydynt am gael mynediad i'r Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol.
- Nodir gofynion penodol ar gyfer meddygon teulu locwm yn Atodiad B y Cynllun ar gyfer Canllawiau GMPI. Gellir dod o hyd i wybodaeth fanwl yn ymwneud â meddygon teulu locwm ar wefan GMPI yma.

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am Atodiad B at Dîm Gwasanaethau Cyflogaeth PCGC trwy anfon e-bost at:

NWSSP.PrimaryCareWNWRS@wales.nhs.uk

Neu drwy ffonio: 01792 860498/0490

- Mae'n hanfodol bod practisiau yn cadw cofnod o staff sy'n gweithio ar System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu.

Gall meddygon teulu a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill sy'n dychwelyd i GIG Cymru i gynorthwyo yn ystod yr argyfwng hwn gael rhagor o wybodaeth yma.

## Brechiadau COVID-19

Bydd gwybodaeth am y rhaglen frechu yn cael ei diweddaru yn ôl yr angen.

1. Daeth Cyfarwyddydau Gofal Sylfaenol (Gwasanaethau wedi'u Contractio: Imiwneiddio) 2021 ("Cyfarwyddydau PCCS:I 2021") i rym ar 18 Awst 2021 ac fe'u diwygiwyd gan Gyfarwyddydau Gofal Sylfaenol (Gwasanaethau Dan Gontract: Imiwneiddio) (Diwygio) 2021 ar 4 Rhagfyr 2021.

Gellir dod o hyd i fersiwn gyfunol o'r Fanyleb Gwasanaethau Gofal Sylfaenol dan Gontract: Imiwneiddio (Brechlynnau COVID-19) ["manyleb PCCS:I"] fel y cyfeirir ati yn y Cyfarwyddydau yma.

Mae darparwyr (e.e. practisiau meddygon teulu, clystyrau, fferyllwyr ac ati) sy'n ymwneud â darparu'r brechlynnau Covid-19 canlynol: Brechlyn Moderna, Brechlyn Rhydychen/ Astra-Zeneca neu frechlyn Pfizer-BioNTech (a elwir hefyd yn Comirnaty) o dan y Cynllun a sefydlwyd gan y Cyfarwyddydau hyn, yn dod o fewn cwmpas y trefniadau indemniad dewisol presennol yn unol â rheoliad 8 o Reoliadau'r GIG (Cynllun Esgeuluster Clinigol) (Cymru) 2019 ['Rheoliadau 2019']. Felly, ar yr amod bod Bwrdd Iechyd yn cyflogi darparwyr o'r fath (e.e. practisiau meddygon teulu, clystyrau, fferyllwyr ac ati) yn unol â gofynion Cyfarwyddydau PCCS:I 2021, mae darparwyr o'r fath yn dod o fewn cwmpas y Cynllun.

Amlinellir Cadarnhad Indemniad hefyd yn llythyr Llywodraeth Cymru dyddiedig 15 Rhagfyr 2021 sy'n amlinellu'r trefniadau ar gyfer y Cynllun Gofal Sylfaenol (Gwasanaethau dan Gontract: Imiwneiddio).

Mae'r trefniant indemniad hwn wedi'i gyfyngu i hawliadau esgeuluster clinigol sifil ac nid yw'n ymestyn i faterion fel cwestau, ymchwiliadau gan reoleiddwyr, neu achosion troseddol, sydd y tu allan i gwmpas Rheoliadau 2019.

Felly mae'n rhaid i ddarparwyr sicrhau bod ganddyn nhw'r lefel briodol o yswiriant indemniad proffesiynol gyda sefydliad amddiffyn meddygol neu yswiriwr ar gyfer materion sydd y tu allan i'r cwmpas.

Sylwch, er bod y trefniant hwn yn gweithredu ychydig yn wahanol i'r cynllun GMPI , dylid rhoi gwybod i ni drwy gysylltu â GMPI@wales.nhs.uk am unrhyw gŵyn neu hawliad clinigol sy'n deillio o weinyddu'r brechlyn yn unol â Chynllun PCCS:I.

2. Yn ogystal â'r trefniadau a nodir uchod, mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol (a'r rhai nad ydynt yn weithwyr gofal iechyd proffesiynol ond sy'n rhoi brechlynnau yn unol â phrotocol a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru) yn cael eu diogelu rhag atebolrwydd sifil o ran hawliadau mewn perthynas â diogelwch neu effeithiolrwydd y brechlyn a awdurdodir dros dro ei hun. [Rheoliad 345 o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Meddyginiaethau Dynol (Coronafeirws a Ffliw) (Diwygio) 2020].

3. Gwirfoddolwyr - Mae'r categorïau o staff y cyfeirir atynt yn ‘Cyfarwyddydau PCCS:I 2021’ yn cynnwys y rhai y mae darparwyr yn eu defnyddio ar sail wirfoddol. Fodd bynnag, rydym yn argymell y dylai darparwyr roi cytundeb ysgrifenedig gwirfoddol ar waith ar gyfer unrhyw wirfoddolwyr sy'n cymryd rhan.

4. Mae meddygon teulu sy'n dychwelyd (sy'n dychwelyd at ddibenion rhoi’r brechlyn hwn) yn cael eu cynnwys gan y trefniant indemniad hwn.

Cyn cychwyn gweithio, dylent gyflawni'r holl ofynion angenrheidiol y mae'r Bwrdd Iechyd neu'r darparwr wedi'u nodi bod yn rhaid i’r sawl sy’n rhoi’r brechlynnau eu cyflawni.

5. Mae lleoliad brechiadau yn amherthnasol ar yr amod bod darparwyr yn darllen ac yn ystyried y Cyfarwyddydau PCCS:I 2021 ochr yn ochr â chydymffurfio â'r fanyleb berthnasol, sydd, ar y cyd, yn darparu gofynion manwl y Gwasanaethau Gofal Sylfaenol dan Gontract: Cynllun Imiwneiddio. Er enghraifft, mae'r 'Amodau ar gyfer Darparu Gwasanaethau' yn y fanyleb berthnasol yn mynnu bod yn ‘rhaid i bob lleoliad lle mae brechu'n digwydd fod wedi cael asesiad risg ar gyfer trosglwyddo coronafeirws, yn seiliedig ar ganllawiau lleol, a bod yn rhaid cymryd camau i leihau risg lle bo hynny'n bosibl'. Hefyd, mae'r adran 'Model ar gyfer Cyflawni' yn y fanyleb a Chyfarwyddyd perthnasol 4(4)(a)(iv)) yn nodi gofynion pellach - sy'n cynnwys, er enghraifft, gofyniad bod yn rhaid cynllunio a chytuno ar leoliad sesiynau'r clinig brechu ymlaen llaw gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol.

6. Pan fo brechlynnau Covid-19 cymeradwy yn cael eu rhoi gan staff neu weithwyr locwm y Bwrdd Iechyd (e.e. mewn canolfannau brechu torfol a safleoedd y Bwrdd Iechyd) mae trefniadau indemniad safonol y GIG yn berthnasol.

Noder: Nid yw’r trefniant indemniad a nodir yng ‘Nghyfarwyddydau PCCS:I 2021’ (paragraff 1 uchod) ond yn berthnasol pan fydd darparwyr gofal sylfaenol yn cael eu defnyddio i’w ddarparu (e.e. meddygon teulu, clystyrau, fferyllwyr ac ati). Pan weinyddir y brechlynnau Covid-19 a restrir uchod gan staff y Bwrdd Iechyd neu staff locwm mae trefniadau indemniad safonol y GIG yn berthnasol.

7. Mae Cynllun Taliad Niwed Trwy Frechiad ar waith sydd bellach yn berthnasol i frechlynnau COVID-19 hefyd.

Mae Llywodraeth y DU yn darparu taliad gwarantedig o £120,000 (sy'n cael ei drin fel taliad ar gyfer iawndal mewn unrhyw achos sifil diweddarach) os ydych chi wedi dioddef anabledd difrifol o ganlyniad i frechiad rhag ystod o afiechydon.

O dan y cynllun hwnnw, nid oes angen profi bai i gael taliad, ond yr achosiad yn ôl pwysau tebygolrwydd yn unig a’r anabledd difrifol (sydd wedi’i ddiffinio).

Gwneir hawliadau i'r Uned Taliadau Niwed Trwy Frechiad ac mae'r uned yn gwneud penderfyniadau ar yr hawliadau gyda chymorth gwybodaeth feddygol.

Noder: Ni fyddai'r cynllun hwn yn berthnasol i’r weithred o roi brechlyn mewn modd esgeulus.

Cliciwch yma i gael rhagor o wybodaeth.

GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau Shared Services Partnership

## Sut i gysylltu

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ar yr wybodaeth a ddarparwyd, cysylltwch â:

Jonathan Webb
Pennaeth Diogelwch a Dysgu
Tŷ'r Cwmnïau

**E-bost**: Jonathan.Webb@wales.nhs.uk